Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Beddgelert
# Neuadd Y Pentref
# Beddgelert
# Ffordd Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 4UY

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Beddgelert yn gylch cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli lan llofft yn Neuadd y Pentref, Beddgelert, Gwynedd. Daw'r holl blant sy'n mynychu'r cylch o'r pentref a'r ardal gyfagos. Cydnabyddir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd.

Mae'r cylch wedi ei leoli yn yr un ystafell ers 2005 a chanddo ddefnydd cyfan gwbl o'r ystafell. Nid oes ardal allanol. Fodd bynnag, mae'r cylch yn gwneud defnydd helaeth o'r pentref, gardd yr ysgol a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cylch ar agor rhwng 9.45yb ac 1.05yp o ddydd Mawrth i ddydd Iau.

Dywed y cylch daw llawer o blant o gartrefi lle siaredir Saesneg ar yr aelwyd ac mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd. Nid oes un plentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Daw ychydig iawn o blant o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid oes yr un plentyn o gartref sydd o dan anfantais gymdeithasol.

Mae'r cylch wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am uchafswm o 10 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed. Ar hyn o bryd, mae 12 o blant yn mynychu'r cylch ar ryw adeg o'r wythnos. Mae saith ohonynt yn dair blwydd oed.

Mae'r ddwy gyd-arweinydd yn ei swyddi ers 1996 a 2005. Mae rhieni yn cefnogi'r cylch pan fo'r angen am gymorth oedolyn ychwanegol. Mae'r holl staff â chymwysterau addas.

Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y cylch. Arolygwyd y cylch ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2012. Cafodd y cylch ei arolygu gan Estyn yn 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y cylch yn dda oherwydd:

- y cynllunio da o'r profiadau dysgu;
- y cwricwlwm eang, cytbwys a diddorol, sy'n cefnogi'r holl blant;
- yr addysgu effeithiol sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- yr adnoddau da sydd ar gael;
- yr arweinyddiaeth a rheolaeth da;
- y berthynas dda iawn rhwng oedolion a phlant;
- y berthynas a chydweithio da gyda'r gymuned; a'r
- cydweithrediad effeithiol ag asiantaethau allanol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y cylch.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:

- y ddarpariaeth a chyfeiriad clir i waith y cylch gan yr arweinyddion;
- y systemau hunanarfarnu effeithiol sy'n cyfateb yn briodol i dargedau clir y cynllun datblygu pwrpasol;
- yr agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff;
- y defnydd effeithiol o linellau cymorth effeithiol;
- y pwyllgor rheoli gweithredol a chefnogol; a'r
- defnydd ysgogol o'r amgylchedd dysgu, y gymuned a'r ardal leol.

## Argymhellion

A1 sicrhau bod cyflwyniadau a storïau yn cael eu hamseru'n effeithiol i gynnal diddordeb y plant

A2 darparu cyfleoedd perthnasol i'r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill, er mwyn gwella'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y cylch yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | N/A |
|---|---|

**Safonau: N/A**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: N/A**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda. Mae'r cynllunio yn diwallu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac yn cyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Gosodir amser gwerthfawr yn wythnosol i'r staff gyfarfod i gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r paratoadau hyn yn darparu'r plant â gweithgareddau defnyddiol a phwrpasol. Mae'r cwricwlwm hyblyg yn briodol ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant.

Caiff cyfleoedd priodol eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y cylch er mwyn i'r plant ddatblygu eu hunanhyder ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er bod gweithgareddau penodol wedi'u cynllunio, mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain. Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd, datblygiad corfforol a chreadigrwydd. Cymraeg yw iaith naturiol yr oedolion ac maent yn cyfathrebu'n effeithiol iawn â'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda. Mae'r staff yn gyson gyfeirio'r plant tuag at ddefnyddio'r cyfarpar technolegol fel y cyfrifiadur a theganau symudol sy'n herio unigolion yn briodol. Mae gan blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau heriol fel chwarae rôl yn y siop ffrwythau, arbrofi gyda dŵr a chreu llythrennau â sialc a phensiliau lliw.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi, diwrnod Santes Dwynwen ac hanes Gelert y ci. Fodd bynnag, nid oes llawer o gyfleoedd ar gael i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Felly, nid yw'r plant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach a'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang.

Mae cyfleoedd da i'r holl blant dyfu blodau a llysiau tu fewn i'r ystafell ac mewn ardaloedd tyfu blodau o gwmpas y pentref. Mae ardal tyfu llysiau gan y cylch yn y pentref ac yng ngardd yr ysgol. Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ailgylchu papur a photeli plastig sy'n wastraff. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth am dyfiant planhigion a chynaliadwyedd yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda am ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas positif iawn rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Maent yn addysgu'n dda, fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r cyflwyniadau i dasgau ac elfennau o storïau yn cael eu hamseru'n effeithiol i gynnal diddordeb y plant.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn sefydlog, sy'n golygu bod y staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am y plant yn rheolaidd. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion. Mae'r holl blant yn cael rhyddid synhwyrol i ddewis rhwng y gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol.

Mae'r staff yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda i lefelau datblygiad y plant ac yn defnyddio holi'n effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant yn dda i werthuso'u gwaith wrth iddynt drafod stori, llanw bwcedi a photiau â thywod a chreu swigod. Mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Maent yn bositif iawn wrth i'r plant gyrraedd ac maent yn parhau â'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiynau.

Mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n effeithiol ac effeithlon iawn. Mae'r asesiadau dyddiol yn arwain, gyda manylder, yn uniongyrchol at dargedau plant unigol. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y cylch ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda. Mae ymwelwyr o'r gymuned fel y deintydd, cogyddion, pobl busnes a chrefftwyr yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r cylch yn ymweld â'r gymuned yn gyson trwy deithiau i lan yr afon, Parc Cenedlaethol Eryri, y llyfrgell, y rheilffordd, siopau lleol, ffermydd a chwmnïau cyfagos. Mae'r defnydd o'r pentref a'r ardal leol yn sicrhau cyfleoedd awyr agored ysgogol ar gyfer y plant. Mae'r ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr i'r cylch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y cylch ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer yr elfennau diwylliannol mor effeithiol wrth ystyried diwylliannau eraill. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu meithrin yn synhwyrol gan y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt rannu'r teganau mawr a chymryd eu tro yn dda wrth fwyta brechdanau ac yfed diod o gwmpas y bwrdd bwyta.

Mae trefniadau'r cylch ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r cylch yn ddiogel, mae'r drysau ar gau a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor. Nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi ac mae staff yn trafod rhain gyda'r asiantaethau priodol. Un o'r arweinyddion yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r cylch, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei adnabod yn effeithiol. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol. Mae'r awyrgylch cartrefol a chyfeillgarwch y staff yn sicrhau bod agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r cylch. Mae'r cylch yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae cymwysterau a phrofiad da gan y staff ac mae'r cymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio â'i gilydd ac wrth oruchwylio gweithgareddau y tu mewn a thu allan.

Mae'r cylch yn defnyddio'i adnoddau yn dda i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb yn effeithiol. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n dda rhwng y gweithgareddau parhaus a chyfoethogi a'r tasgau ffocws. Er bod y lle yn yr ystafell lan llofft yn gyfyng o ran maint, mae'n cael ei drefnu'n dda i sicrhau cyfleoedd ysgogol i'r plant i ymestyn eu profiadau. Ceir gofal da o'r plant wrth iddynt ddringo a disgyn y grisiau i ddefnyddio'r neuadd lawr llawr a'r teganau mawr. Nid oes ardal allanol gan y cylch. Fodd bynnag, defnyddir yr amgylchedd lleol yn effeithiol iawn trwy ymweliadau cyson â'r ardal leol a'r gymuned. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y plant o'u pentref a'u cymuned.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae'r arweinyddion yn synhwyrol wrth dderbyn cyngor asiantaethau allanol fel y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol. Mae'r arfer hon yn sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinyddion yn rhannu gweledigaeth glir, ac mae eu hymrwymiad yn arwain at synnwyr o bwrpas effeithiol i waith y cylch.

Mae'r cynllun datblygu'n nodi'n briodol beth sydd angen ei wneud er mwyn i'r cylch wella. Mae'r cynllunio strategol yn cael effaith gadarnhaol trwy greu gwelliannau ac mae'r targedau yn cyfateb yn briodol i'r sylwadau yn yr adroddiad hunanarfarnu.

Mae'r arweinyddiaeth a'r staff yn canolbwyntio'n dda ar anghenion plant ac mae'r cylch yn cyflawni hyn yn llwyddiannus ac ymarferol. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r pwyllgor rheoli yn arwain yn effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth. Mae ei systemau rheoli yn cwrdd â'r gofynion. Mae'r cylch wedi rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, gwneir defnydd da o gyfleoedd i weithio gyda'r ysgol leol, y gymuned, y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau cysylltiadau effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r cylch yn hunanarfarnu'n dda ac yn sicrhau cyfatebiaeth effeithiol rhwng yr hunan arfarniad a thargedau'r cynllun datblygu. Mae'r targedau'n nodi'n briodol y meysydd i wella ac yn eu gweithredu yn erbyn llinynnau amser a chyfrifoldebau pendant er lles y plant.

Mae tystiolaeth gadarn o drafodaethau a phrosesau buddiol gan bawb sy'n ymwneud â'r cylch fel rhieni, y gymuned ac asiantaethau allanol. Mae'r targedau priodol yn cynnwys, datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant, cynnwys bwyd ym mocsys cinio'r plant a hybu deiet iach, gwella'r cyfarpar technoleg gwybodaeth, datblygu hyfforddiant y staff, ystyried amser cyfarfodydd y cylch a marchnata'r cylch.

Mae'r meysydd i'w gwella yn cael eu targedu yn effeithiol a chynnil yn erbyn meini prawf llwyddiant yng nghynlluniau datblygu'r cylch. Mae'r cynlluniau datblygu yn cael blaenoriaeth effeithiol yn natblygiad y cylch gan y staff, yr awdurdod lleol, y Mudiad Meithrin a'r pwyllgor rheoli. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r rhieni, yn yr atebion i'r holiaduron ac yn ystod trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r cylch ac yn gwerthfawrogi'n fawr y safonau o ofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff. Ceir llyfryn sy'n llawn gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n eu darparu â manylion perthnasol am y cylch.

Erbyn i'r plant adael y cylch, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol leol. Mae'r cysylltiadau rhwng y cylch a'r ysgol yn dda gydag ymweliadau cyson yn bodoli trwy'r flwyddyn. Mae'r partneriaethau cymunedol yn dda iawn ac mae'r cylch yn cymryd pob cyfle i ddefnyddio'r pentref a'r ardal gyfagos i ddarparu profiadau diddorol ar gyfer y plant.

Mae'r cysylltiadau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn dda ac mae adroddiadau rheolaidd ar gael o ymweliadau a thrafodaethau buddiol. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau yn gymorth i symud y cylch ymlaen ac yn cyfrannu at y ddarpariaeth dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff y cylch yn addysgu’n dda ac yn cydweithio’n effeithiol. Mae’r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn clustnodi arian ar gyfer yr anghenion pwysig fel adnoddau dynol da a chyfarpar defnyddiol. Mae’r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn tuag at ddefnydd y pentref a’r gymuned fel ardal allanol y cylch.

Mae’r cylch yn defnyddio’r adeilad a’r ardal leol yn effeithiol a darparu profiadau diddorol, sy’n cael eu cynllunio’n dda. Mae’r arweinyddion yn arwain yn effeithiol a defnyddio asiantaethau cynorthwyol a’r pwyllgor rheoli yn bwrpasol er lles y plant. Wrth ystyried y ddarpariaeth ar gyfer y plant a brwdfrydedd a safonau uchel yr arweinyddiaeth, mae’r cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae bron pob un plentyn yn hapus yn y cylch. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â'u ffrindiau. Mae bron pob un ohonynt yn hunanhyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod ganddynt dasgau diddorol sydd wedi eu darparu ar eu cyfer.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |